Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf.DL301

**Amseru: arferol**

**Teitl: Defnyddio arian cyfatebol camdrinwyr cam-drin domestig at ddibenion eraill**

**Categori'r Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Cyflwynodd Swyddfa Comisiynydd Cwynion yr Heddlu, ar ran nifer o bartneriaid cyflawni, gais am Gyllid Cyflawnwyr Cam-drin Domestig y Swyddfa Gartref ar gyfer y cyfnod 2023-2025. Roedd hwn yn barhad ac ehangiad o'r model gwasanaethau a ddarparwyd trwy rowndiau blaenorol o gronfeydd cyflawnwyr y Swyddfa Gartref. Nid oedd y cais hwn yn llwyddiannus ac mae'r canlyniad wedi'i herio'n uniongyrchol gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Roedd y cais gwreiddiol yn cynnwys £97,239 o arian cyfatebol gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, i'w ymrwymo o gronfeydd wrth gefn hyfforddiant gyrwyr. Cynigir bod y cyllid hwn yn cael ei ailgyfeirio i'r meysydd hynny a nodwyd fel blaenoriaeth uchel yng nghynnwys y cais. Y brif flaenoriaeth yw parhau â swydd y Cydgysylltydd Cam-drin Domestig a Stelcio sydd ar hyn o bryd yn rhan o Heddlu Dyfed-Powys. Mae tystiolaeth bod y rôl hon wedi gwella'r broses o adnabod a rheoli troseddwyr ac mae risg sylweddol yn gysylltiedig â chael gwared â'r swydd hon. Argymhellir parhau â'r swydd ar gost o £35,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Dylid ystyried defnyddio gweddill yr arian er mwyn parhau â'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd, ar raddfa lai i'r hyn a gynhwyswyd yn y cais gwreiddiol. Cost hyn yw uchafswm o £60,000 ar gyfer 2023/24, i'w drafod ymhellach gyda darparwyr.

Cynigir hyn fel ateb dros dro tra bo canlyniad y cais yn cael ei herio ac yn amodol ar drafodaethau pellach ynghylch cynaliadwyedd hirdymor y gwaith cyflawnwyr.

**Argymhelliad:**

Argymhellir y dylid ariannu swydd y Cydgysylltydd Cam-drin Domestig a Stelcio yn ystod 2023/24 ar gost o £35,000 ac y dylid ymchwilio i opsiynau o ran parhau â'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd gyda darparwyr a nodi cost derfynol i'w chymeradwyo gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw fuddiant personol neu ragfarnus yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

**Llofnod:** **Dyddiad:** 25/4/2023